
AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 220 Awst – Medi 2019

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Wrth i ni ddechrau blwyddyn Fethodistaidd newydd ar 1 Medi, mae'n bleser croesawu'r Parchedig Ddoctor Trevor Hoggard yn Arolygydd newydd Cylchdaith Cymru, Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy a chydweithiwr i'r Parchedig Tudur Rowlands yn Ardal Dyffryn Clwyd. Bydd Trevor a'i wraig Cathie yn byw yn Abergele, ac fe weddïwn am fendith Duw arnynt yn eu cartref newydd. Diolchwn i Dduw am eu galw nhw yn ôl i Brydain o Seland Newydd, ac iddynt hwythau am ymateb i'r alwad i Gymru. Croeso cynnes!

Mae mans Abergele ar gael i Trevor a Cathie oherwydd fod y Diacon Jonathan Miller a'i deulu wedi symud i Langynin, Sir Gaerfyrddin. Mae Jonathan yn cychwyn mewn penodiad newydd ar y cyd rhwng ein dau Synod yng Nghymru. Bydd yn hybu a datblygu gwaith Momentwm (ein gwaith ieuenctid ar y cyd), a hefyd yn cenhadu yn Gymraeg a Saesneg yn y gymuned leol. Felly dydym ni ddim yn colli Jon o'n plith, ac fe edrychwn ymlaen at bosibiliadau newydd i ni oll. Pob bendith ar y teulu Miller yn eu cartref newydd, ac ar waith Jon.

Rwy'n teimlo fy mod innau'n cychwyn ar gyfnod newydd hefyd. Ym mis Medi 2013, dechreuais ar benodiad chwe blynedd fel Cadeirydd Synod Cymru ac Arolygydd Cylchdaith Cymru. Ym mis Medi 2019, rwy'n dechrau ar estyniad pum mlynedd i'r penodiad hwn fel Cadeirydd. Dydw i ddim wedi gwneud estyniad o fwy na blwyddyn mewn penodiad o'r blaen, felly mae'n brofiad newydd ynddo ei hun. Mae'n amser i edrych yn ôl yn ogystal ag ymlaen. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae rhyw ugain o'n heglwysi ni wedi penderfynu dod â'r achos i ben a chau'r capel. Rydym wedi colli rhyw 250 aelod. Mae ein hadnoddau ariannol wedi lleihau oherwydd y ffordd rydym yn ariannu'r Gylchdaith, gan gadw'r swm rydym yn gofyn amdano gan y capeli yn isel iawn trwy roi cymhorthdal o'n harian wrth gefn. Roedd y penderfyniad hwn yn rhan o sefydlu Cylchdaith Cymru yn ôl yn 2009, ac ni chafodd ei adolygu oddi ar hynny. Mae'n wir dweud, os parhawn yn yr un ffordd, y bydd yr arian wrth gefn wedi diflannu cyn i mi orffen fy estyniad, a fydd o bosib yn golygu diwedd cenhadaeth a gweinidogaeth Cylchdaith a Synod Cymru fel rydym ni'n eu hadnabod ar hyn o bryd. Canfod ffordd ymlaen yw her fawr estyniad fy mhenodiad fel Cadeirydd.

Ac eto, yn ystod y chwe blynedd diwethaf, rydym ni wedi gweld nifer o arwyddion o obaith a blagur gwyrdd newydd. Mae penodiad newydd Jon yn un ohonynt. Un arall yw penodiad a gwaith Mrs Delyth Davies fel ein Swyddog Dysgu a Datblygu. Mae sawl capel wedi cymryd camau mewn ffydd i drwsio a datblygu eu hadeiladau. Mae eraill wedi dechrau ymdrechion newydd i hybu eu bywyd fel cynulleidfa ac i estyn allan i'r gymuned. Dyna 'Drws Agored' yn Nhregarth; 'Llan Llanast' yn Neganwy a Grŵp Astudiaeth Feiblaidd Dolgellau, i enwi tri. Mae capeli, gwenidogion ac Arweinyddion yr Ardaloedd wedi bod yn fodlon cymryd rhan yn ein Harchwiliad Cenhadaeth a Gweinidogaeth sy'n digwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Mae pob capel yn cael ei annog i baratoi Cynllun Cenhadu neu Gynllun Diwedd Bywyd, a bydd y data sy'n cael eu casglu fel rhan o'r Archwiliad yn cael eu defnyddio mewn ffordd debyg ar gyfer y Gylchdaith. Mae'n her, yn wir, ond mae ein hamgylchiadau'n heriol ac yn gofyn am ymateb.

Mi ges i'r fraint o fynychu Cenhadledd Eglwys Fethodistaidd Iwerddon ym mis Mehefin. Mae ein brodyr a'n chwioryddd yno wedi bod trwy broses sylweddol o newid yn ddiweddar, gan leihau nifer taleithiau'r Eglwys o wyth i dair. Yn ogystal, maen nhw wedi penodi tri Arolygydd 'Ar Wahân', sef heb gyfrifoldeb dros gapeli, am y tro cyntaf erioed. Mae'n newid diwylliannol a strwythurol enfawr iddynt. Mae'r broses i gyd wedi cael ei chynnal a'i chofleidio mewn gweddi. Mae gennym ni lawer i'w ddysgu oddi wrth Eglwys Fethodistaidd Iwerddon, rwy'n credu, am sut i gymryd risgiau a chamu ymlaen mewn ffydd. Yn ddiddorol, mae ganddynt tua 200 capel a thua 14000 aelod, sy'n golygu aelodaeth o ryw 71 ym mhob capel ar gyfartaledd. Mae gennym ni tua 60 capel a 1050 aelod, sy'n golygu aelodaeth gyfartalog o tua 17 – yr un rhifau yn y drefn wrthwyneb! Tybed a yw hyn yn dweud rhywbeth wrthym. Beth ydych chi'n ei feddwl?

Ie wir, amserau heriol i ni fel Synod ac fel Cylchdaith, ond does dim angen inni ofni. Mae Duw gyda ni; rydym yn rhan o Gyfundeb sy'n ein cefnogi; mae gennym ni waith i'w wneud o hyd yn Nheyrnas Dduw. Rwy'n bwriadu gwneud popeth allaf fi yn ystod y pum mlynedd nesaf i sicrhau dyfodol i waith a thystiolaeth, cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'ch gwahoddaf chithau i ymuno yn y dasg hon.



Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Awst**

4 Yr Eisteddfod Genedlaethol
11 Gwyliau
18 Gwyliau
25 Gŵyl Greenbelt

**Medi**

1 Powys
8 Bathafarn; Llanteg
15 Glannau Meirion a Dyfi; Llandegla
22 Dyffryn Clwyd
29 Morgannwg

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.
YouTube: Ewch i https://www.youtube.com/watch?v=02n482oC2KQ os hoffech glywed Jennie yn siarad am pam mae gweddi yn bwysig iddi hi.

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 220**
**AWST – MEDI 2019**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 MEDI 2019

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr:
Eglwys hynafol Llanrhychwyn, Dyffryn Conwy


**Rhoddion**

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a ganlyn, a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.
Mrs Marian Jones, Radur, er cof am ei phriod Mr R. Dilwyn Jones a'i rhieni y Parchg a Mrs D. R. Evans
£30-00

Y Parchg W. J. Edwards, Bow Street
£10-00

**Cyfanswm**
£40-00



**CROESO CYNNES**
**I DDAU WASANAETH**
**ARBENNIG**

**Gwasanaeth Croeso'r**
**Parchg Ddr Trevor Hoggard**
Capel Pendref, Dinbych
Dydd Sadwrn 7 Medi 2019, 2yp
Croeso cynnes i bawb
Lluniaeth ysgafn i ddilyn

**Gwasanaeth Croeso'r**
**Diacon Jonathan Miller**
Neuadd Bentref Llanteg,
SA67 8QE
Dydd Sul 8 Medi 2019, 6.30yh
Croeso cynnes i bawb
Swper i ddilyn

# Yma o hyd




Mae'n anodd gwybod ambell dro, o edrych ar addoldy o'r tu allan, beth yw ei hanes ac yn wir a oes rhywbeth yn digwydd yno! Er mwyn i bawb wybod fod yr addoli'n parhau yng nghapel Seion, Glyndyfrdwy, penderfynwyd yn ddiweddar y dylid gosod hysbysfwrdd newydd ar y mur y tu allan. Roedd hyn yn dilyn awgrym gan y Parchg Ddr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru, pan fu acw yn cynnal oedfa. Roedd enw a dyddiad adeiladu'r capel, a naddwyd ar dywodfaen ar dalcen yr adeilad yn 1903, wedi gwisgo ac ymhell o olwg pawb. Diolch i Elfed Jones, Trysorydd yr Eglwys, am drefnu i gael gosod arwydd hardd ac amlwg i bawb ei weld. Wedi'r gwasanaeth ar ddydd Sul, Mai 5, daeth y gynulleidfa a'r pregethwr Mr Richard Jones ynghyd i gael tynnu eu llun – i gofnodi'r ffaith ein bod "yma o hyd"!



# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Ar hyd y cyfnod a ddarlunnir yn y Beibl fe ellir gweld y tyndra rhwng yr ysbrydol a'r materol ar waith. Mae'r tyndra hwnnw wedi parhau'n broblem i gredinwyr yr oesoedd hyd at ein cyfnod ni. Mae'n demtasiwn i Gristnogion ymhyfrydu yn y lambastio a ddaw o enau arweinwyr crefyddol ar ddrygau ffordd o fyw faterol rhai o'n cwmpas heb sylweddoli mai Cristnogaeth, yng ngeiriau William Temple, 'yw'r mwyaf materol o'r crefyddau oll'. Os yw Temple yn gywir mae'r ymdrech i ymwrthod â materoliaeth Gristnogol a'i wneud yn eilbeth i ysbrydolrwydd arallfydol yn ein harwain at sawl dibyn peryglus iawn. Wrth i gredinwyr droi cefn ar y materol mae gelynion crefydd yn gallu defnyddio'r hen ddadl bod Duw wedi cael ei neilltuo i dir ysbrydol a'i bod hi'n iawn felly defnyddio'r ddaear a'i hadnoddau i bwrpasau gwleidyddion ac economegwyr.

Mae materoliaeth Gristnogol yn dechrau trwy bwysleisio'r ffaith fod y Gair wedi dod yn gnawd ac wedi byw ymhlith pobl. Trwy'r Beibl mae gweithredoedd Duw yn ymwneud â bywydau pobl mewn genedigaeth, mewn poen, mewn adegau o newyn, mewn tlodi, tristwch a llawenydd. Nid yw Duw'r Cristion yn rhy arallfydol i ymwneud â'r cnawd dynol. Os ymwneud â ni yn ysbrydol yn unig y mae Duw, yna nid yw'r ymgnawdoliad yn ddim mwy na'r Gair **na** wnaed yn gnawd go iawn. Yn hytrach fe ddywed y Cristion fod y cnawd yn foddion achubiaeth i'r ddynoliaeth fel ein bod yn cael ein dyrchafu i'r natur ddwyfol drwyddo.

Pan oedd Sant Ioan o Ddamascus (676-787?) yn amddiffyn y rhai a gredai mewn eiconau yn yr eglwysi fe ddywedodd fod yr ymgnawdoliad yn golygu bod y materol yn gyfrwng y dwyfol. "*Nid wyf,*" meddai, *"yn addoli natur, ond addolaf Greawdwr natur, a ddaeth er fy mwyn i yn fater, ac a ddewisodd breswylio yn y materol a sicrha fy achubiaeth. Ni fyddaf yn peidio â pharchu natur oherwydd mai trwyddo y daeth fy achubiaeth i fod".* Dyma yw her Sant Ioan i ninnau hefyd mewn byd lle mae pobl a natur yn cael eu newid gan Dduw. Ond efallai fod yr her yn ormod inni fel Eglwysi a bod yn well gennym neilltuo'r ysbrydol ar gyfer ein heneidiau personol a chadw crefydd allan o dir y materol.

Mis Mai eleni roedd hi'n ddaucanmlwyddiant geni Walt Whitman (1809-1892) a ddisgrifir gan rai fel y bardd Americanaidd mwyaf a fu erioed. Fe gofir amdano fel tad barddoniaeth rydd. Oherwydd tlodi teuluol bu rhaid iddo addysgu'i hun. Darllenodd yn helaeth gan ddotio ar Shakespeare ac astudio'r Beibl yn drwyadl. Roedd ei gartref yn Long Island, Efrog Newydd, er fe fyddai e'n galw'r lle yn Paumanock, sef gair y trigolion gwreiddiol sy'n golygu siâp pysgodyn. Roedd yn ysgrifwr a newyddiadurwr a bu'n olygydd sawl papur newydd yn pledio'r achos yn erbyn caethwasiaeth. Nid oedd ei farddoniaeth yn dderbyniol gan bawb ond mae'r ysbrydol a'r materol yn cael lle amlwg yn ei waith. Mae blas hyn i'w weld yn y dyfyniad hwn o'i gerdd fawr *Starting from Paumanock*.

*'Fe wnaf y cerddi o ddefnydd, gan y credaf y byddant y cerddi mwyaf ysbrydol, a gwnaf y cerddi o'm corff ac o farwoldeb oherwydd credaf y byddaf wedyn yn rhoi i mi fy hun gerddi fy enaid ac o anfarwoldeb'.*

Un o edmygwyr mawr Whitman oedd yr arlunydd Stanley Spencer (1891-1959), a geisiodd ddod â'r ysbrydol a'r materol i ganol bywyd bob dydd yn ei waith. Ganwyd ef yn Cookham, pentref bach ar lan Afon Tafwys, yn Swydd Berkshire. Y pentre' hwnnw i bob pwrpas, oedd ei gartref gydol ei oes. Bu yn y Slade o 1908 i 1912, gan ddatblygu'n artist tirluniau rhagorol ac yn ddarlunydd hynod o dda. Mae ei hunan bortreadau yn 1914 a 1959 yn brawf digamsyniol o'i ddawn. Torrodd y Rhyfel Byd cyntaf ar draws ei waith, ond oherwydd ei fod yn eiddil a bychan, nid oedd yn dderbyniol gan y fyddin. Ymunodd â'r RAMC a bu'n gwasanaethu yn Salonica lle cafodd brofiadau dirdynnol. Wedi'r rhyfel datblygodd ei ddull ei hun o bortreadu ei brofiadau ysbrydol drwy ddarluniau â chefndir crefyddol iddynt. Yr hyn a wnaeth oedd gosod Cookham yn gefndir i bob darlun. Mae'r Swper Olaf wedi'i osod mewn tafarn leol ac mae trigolion y pentref i'w gweld yn atgyfodi o'u beddau ym mynwent Cookham. Mae rhai o gymeriadau'r ardal i'w gweld yn ei ddarlun o Grist yn cael ei draddodi i'r bobl a'r pentref ar lan yr afon yw'r cefndir i'w ddarlun enfawr o Iesu yn pregethu yn Regata Cookham.

I Spencer roedd y materol a'r ysbrydol wedi'u plethu i mewn i bopeth. Pan yn addoli yn y capel Wesla roedd yn clywed swnfeydd y byd tu allan ac yn ystyried y cyfan yn brofiad ysbrydol. Roedd pob agwedd o fywyd yn gyfle iddo ganfod yr ysbrydol ar waith.

Pan fu Spencer farw yn 1959 gadawodd eiddo gwerth oddeutu £6000. Mae ei waith heddiw yn amhrisiadwy oherwydd yn ei ymchwil am waredigaeth ysbrydol fe adawodd ddarluniau crefyddol a ddaearwyd yn ei gymdeithas. Yr her inni yw daearu'r ysbrydol yn y fath fodd fel y bydd pobl heddiw yn gweld crefydd yn rhan annatod o fywyd cyffredin pob dydd.

# Bywyd Ysbrydol

## *gan y Parchg. Jennie Hurd*

Darlleniad: Actau 2: 42-47

Dyma'r olaf yn ein cyfres yn dilyn thema Synod Cymru eleni, sef Bywyd Ysbrydol, yn canolbwyntio ar ein perthynas efo Duw yn Iesu fel unigolion ac efo'n gilydd. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau darllen a defnyddio'r erthyglau i'ch helpu i dyfu yn ysbrydol, ar eich pen eich hunan neu fel rhan o grŵp. Dyna oedd y bwriad, sef cynnig adnodd byr a syml i'w ystyried dros baned. Os nad ydych wedi cymryd y cyfle eto, dydy hi byth yn rhy hwyr!

Mae gan bob un ohonom ni fywyd ysbrydol sy'n unigryw i ni. Mae Duw yn ein nabod ni ac yn dod i mewn i berthynas efo ni fel unigolion. Rydym i gyd yn wahanol – dyna rywbeth sy'n ein huno ni! Mae hynny wedi bod yn amlwg ym mhob erthygl yn y gyfres hon, a dwi'n siŵr ein bod ni i gyd yn ddiolchgar i'r cyfranwyr. Maen nhw i gyd wedi rhannu rhywbeth ohonynt eu hunain, wrth iddynt gynnig eu hysgrifau. Mae rhywbeth o'u pwyslais personol o fewn eu bywydau ysbrydol nhw wedi cael ei ddangos yn y geiriau maen nhw wedi'u hysgrifennu. Mae hyn wedi cyfleu i ni unwaith eto natur unigryw ein bywyd ysbrydol personol. Mae Duw yn cysylltu efo ni yn y ffyrdd sy'n arbennig i'n cymeriadau ni, a ninnau'n cysylltu efo Duw yn yr un modd. Dwi'n cofio clywed gweinidog yn siarad am weinidog arall: "Dydy o ddim yn ysbrydol iawn," meddai hi. Roedd rhaid i mi feddwl am foment er mwyn deall beth roedd hi'n ei ddweud. Roedd hi'n meddwl am fod yn ysbrydol fel myfyrio llawer, treulio oriau mewn tawelwch, cynnau canhwyllau, darllen llyfrau am weddi ac ati. "Ond Mary," dywedais i, "mae John yn ysbrydol, ond mae'n ei ymarfer mewn ffordd wahanol i ti. Mae ei fywyd ysbrydol yn cael ei ddatguddio yn ei actifyddiaeth dros heddwch a chyfiawnder, er mwyn pobl eraill. Mae'n ysbrydol iawn!"



Ym mis Medi, mae thema Synod Cymru ar gyfer 2019-20 yn dechrau, sef Estyn Allan i'r Gymuned. Mae yna gysylltiad hanfodol rhwng ein bywyd ysbrydol a'r ffordd rydym ni'n ymdrin â phobl eraill. Os ydym ni'n gwybod am gariad Duw tuag atom ni yn Iesu Grist, cawn ein cymell i estyn allan mewn cariad. Mae ein bywyd ysbrydol yn cael ei ddatguddio yn y ffordd rydym ni'n byw. Ym maes Diwinyddiaeth Ymarferol, *praxis* yw'r gair Groeg am hyn – y tu mewn a'r tu allan mewn harmoni, heb wahaniaeth rhyngddynt.

Felly, wrth i ni symud fel Synod o'r naill thema i'r llall, mae'n gyfle i ystyried sut mae ein bywyd ysbrydol, yn enwedig fel capeli, yn cael ei fynegi yn ein cymunedau lleol.

Cwestiynau:

1. Beth ydych chi'n ei feddwl o sylwadau Mary am John? Oedd hi'n iawn? Oeddwn i yn anghywir?
2. Ym mha ffyrdd rydych chi'n ceisio byw eich perthynas efo Duw yn Iesu Grist bob dydd?
3. Meddyliwch am y gymuned o gwmpas eich capel chi: at bwy y mae angen i chi estyn allan mewn cariad, a sut?

## Gair o Ddiolch

### gan y Parchedig Gwilym O. Jones

Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd i mi yn ddiweddar, yn dilyn yr anffawd a gefais. Derbyniais lawer o gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau tra bûm yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd adref. Ni feddyliais fod gennyf gynifer o ffrindiau! Diolch yn fawr i bawb.



**Draenen Ddu gan Geraint Roberts, Prestatyn**

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Rydym yn falch iawn fod Glenys Hughes yn cael ei hanrhydeddu fel aelod o Orsedd y Beirdd yn Llanrwst eleni. Pob dymuniad da, Glenys.

Dymuniadau gorau i Siôn Hughes a Gwenno a fydd yn priodi yn Llanberis ym mis Awst. Pob hapusrwydd i chi.

Llongyfarchiadau calonnog i Gwyn Williams ar gael gor-wyres eto ac i Audrey a Llew Jones, hwythau wedi cael gor-ŵyr. Pob bendith arnynt fel teuluoedd.

Pob dymuniad da i Audrey Jones sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig.

**SALI MALI**
Braf oedd gweld Siân a Steffan Parry, Tŷ Ucha Llyn, yn actio Sali Mali a Jac y Jwc mewn cyngerdd a gynhaliwyd er cof am Eirwyn Evans, tad Rhys Ifans yr actor byd-enwog. Buasai Mary Vaughan Jones a Rowena Wyn Jones wedi bod wrth eu boddau gyda'r cyflwyniad yma a ninnau'n dathlu a chofio hanner can mlynedd ers creu'r storïau hyfryd a roddodd gymaint o fwynhad i blant Cymru ac sydd bellach ar gael mewn llawer o ieithoedd ledled y byd. Braf yw cael cofio dawn y ddwy, a fu'n darlithio yn y Coleg Normal gynt.

**IEUENCTID DAWNUS**
Rydym yn falch iawn o lwyddiant Ynyr Rogers, Lois Hughes ac Osian Williams yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Ers rhai blynyddoedd rydym wedi mwynhau eu clywed yn cymryd rhan yn ein gwasanaeth arbennig yma ar Sul y Blodau. Dymuniadau gorau i chi at y dyfodol.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at y Parchedig Martin Evans-Jones, Lorna Wynne, Helen Wynne, Eva Rogers-Jones, Gretta Davies, Ifor Parry, Margaret Hughes a'r Parchg Gwilym O. Jones, Croesoswallt. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag Edwina a Rob Stephen, sydd wedi colli ewythr sef Trefor Lloyd Jones, Aberystwyth, yn wreiddiol o Gerrigydrudion.

**PERERINDOD CYMDEITHAS BATHAFARN**
Edrychwn ymlaen at ymweld â Thrawsfynydd a gweld Yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn. Diolch o galon i Rhian a Rhodri am ofalu am y trefniadau.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu'r Parchg Dilys Jones yn cynnal gwasanaeth yng Nghorwen ac Elwyn Ashford Jones, Gwenda Humphries, Prestatyn, a'r Parchedigion Robin Fox a Peter Jennings ym Mathafarn. Bu Elizabeth Jones gyda Gwasanaeth y Cymun ym Mathafarn a Glyndyfrdwy. Braf hefyd oedd croesawu'r Parchg Marc Morgan yng Nglyndyfrdwy. Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi ar Sul olaf Mehefin, yng ngofal aelodau Bathafarn. Diolch i bawb am eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

### Horeb, Llanrwst

**DYMUNO'N DDA**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Catherine Barnett sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at weld y Parchedig Philip Barnett a Catherine eto yn fuan, gobeithio.

**GENOD GWYCH**
Llongyfarchiadau calonnog i Medi Jones Jackson, un o blant Horeb, ar gyhoeddi llyfr yn ddiweddar o dan y teitl *Genod Gwych a Merched Medrus*. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn gan aelodau'r rhaglen radio 'Silff Lyfrau'. Dywed Medi: "Rwyf wedi ymddiddori mewn hanes merched erioed, ac mae'r 13 rwyf wedi eu dewis yn y llyfr yn amrywio o ran lleoliad daearyddol a meysydd gwahanol gan ddewis meddygaeth, gwyddoniaeth, chwaraeon, addysg, llên a chelf. Cefais fy ysbrydoli i ysgrifennu wrth ddarllen stori cyn gwely i fy merch Anest a sylweddoli nad oedd dim ar gael yn Gymraeg yn trin a thrafod anturiaethau a chlodfori Merched Cymru."

Mae Medi hefyd wedi derbyn swydd newydd yn ddiweddar i hybu Cig Cymru. Mae hi a'i gŵr Paul a'u dau blentyn Anest ac Elis yn byw yn ardal Aberystwyth.

**GOHEBYDD .** EIRA JONES

### Eglwys Unedig Colwyn

**COED CRAIG**
Ar 29 Mehefin cynhaliwyd Ffair Ardd Flynyddol Coed Craig yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Llandrillo yn Rhos. Diolch i bawb am eu gwaith.

**FFARWELIO**
Cynhaliwyd te prynhawn yn Ysgoldy Horeb ar 6 Gorffennaf i ddiolch a ffarwelio â'r Diacon Jonathan Miller a'i deulu. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref a'ch gwaith newydd.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

### Ebeneser, Dolgellau

**GWASANAETH Y PASG**
Yn ystod Gwasanaeth Sul y Pasg croesawyd Irene Edge yn aelod yn yr Eglwys Fethodistaidd trwy drosglwyddiad o'r Eglwys yng Nghymru. Croesawyd ei theulu o Sir Efrog i'r Gwasanaeth, ynghyd â'i hŵyr bach






## Capel Ficer

**OEDFA OLAF**
Diwedd oes oedd hi yng Nghapel Ficer ger Mydroilyn, Ceredigion, mewn oedfa i ddod â'r achos i ben ar brynhawn heulog ddydd Mawrth, yr 28ain o Fai. Achlysur trist, ie, ond yn ei phregeth rhoddodd y Parchedig Ddr Jennie Hurd ddiolch a mawl i Dduw am y ffyddloniaid oedd wedi addoli yn y capel bach gwledig dros gynifer o flynyddoedd. Roedd y gynulleidfa wedi dod o bell ac agos, ac yn eu plith roedd y Parchedig James Patron Bell, ein cyn-weinidog, sydd yn gwasanaethu yn awr yn Swydd Gaer, a hefyd hoelion wyth y capel, Miss Valmai Davies a Mrs Jean Lenord. Roedd y canu yn arbennig, gyda chyfeiliant gan y Parchedig Marty Presdee a'i phriod John ar eu recorders; parhaodd y cymdeithasu wedyn dros deisennau a sudd ffrwythau.

**GOHEBYDD .** BET HOLMES

newydd chwe wythnos oed. Hefyd yn ystod y Gwasanaeth hwn, croesawyd un o ffyddloniaid Ebeneser, sef Mr Hugh Humphreys, yn ôl i'n plith yn dilyn cyfnod o salwch dros rai misoedd.

**GWELLHAD BUAN**
Da yw clywed bod Gwyneth Meredith yn dal i wella a hefyd dymuniadau gorau i Wyn Meredith, Bryngwyn Thomas a Doreen Thomas, y tri ohonynt wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Megan Abbey sydd wedi colli ei gŵr, Fred yn ddiweddar. Meddyliwn amdani a'r holl deulu yn eu colled.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwyd Beryl a Bob Norgrove ar ddathlu Pen-blwydd Priodas Aur yn ddiweddar. Llongyfarchiadau cynnes i Alison ac Alan Woodbridge ar enedigaeth wyres fach newydd, Lydia Ruth.

**CYMANFA UNDEBOL DOLGELLAU A'R CYLCH**
Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Undebol lwyddiannus ar nos Sul y 9fed o Fehefin yn Ebeneser, Dolgellau. Yr Arweinydd oedd Mrs Nia Morgan o'r Bala.

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG 2019**
Cynrychiolwyd Synod Cymru gan Eluned Williams yn agoriad Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhydymain ar y 13eg Mehefin. Da oedd cymdeithasu gyda rhai rydym yn cyd-gerdded â hwy yng Nghymru.

**SYMUD CARTREF**
Mae Margaret Breeze wedi symud o'i chartref yn Ardd Fawr yn ddiweddar ac wedi ymgartrefu yng Nghartref Cefnrodyn, Dolgellau.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Mrs Marion Humphreys sydd erbyn hyn adref o'r Ysbyty.

**GARDD Y CAPEL**
Diolch i Mr Hugh Humphreys am ddarparu'r blodau ar gyfer Gardd y Capel ac i Alison Woodbridge am eu plannu. Mae'n edrych yn hardd.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc ym mis Mai, roedd cyfle i bawb a ddymunai gerdded y llwybrau yng nghoed Caeaugwynedd gan fod Keith a Decia Blacker wedi agor y coed i'r cyhoedd. Pwrpas y prynhawn agored oedd codi arian at 'Gweithredu dros blant' a chynigiwyd hefyd baned a chacennau. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, llwyddwyd i godi £239 at yr elusen. Yn ychwanegol at hyn casglwyd £194 yn y blychau arian mân sydd gan ambell aelod a ffrind yn eu cartrefi. Mae Mr a Mrs Blacker yn ddiolchgar am bob cyfraniad i'r elusen.

**CYMANFA GANU**
Cafwyd Cymanfa Ganu hwyliog yng nghapel y Tabernacl ddechrau Mehefin gyda nifer dda o gantorion wedi dod ynghyd. Mrs Iona Jones, Llansilin oedd yr arweinydd a Mrs Eldrydd Jones oedd yr organydd, gyda'r Parchg Gwyndaf Richards yn llywyddu'r gwasanaeth.

**DRWS AGORED**
Cafwyd sgwrs gartrefol iawn ar ddechrau Mai gan un o'n haelodau. Miss Rhoswen Charles oedd yn ein diddanu drwy sôn am ei gwyliau i sawl rhan o'r byd. Aeth ar ei gwyliau cyntaf yn 1953 a chael blas ar deithio. Cawsom hefyd gyfle i weld nifer o 'drysorau' a gasglodd o'i theithiau. Roedd yn amlwg oddi wrth y sgwrs mai ei mwynhad pennaf oedd hanes y lleoedd yn ogystal â chyfarfod â'r trigolion lleol.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i'n gweinidog, y Parchg Gwyndaf Richards a'i wraig Eirlys ar ddod yn Daid a Nain unwaith eto. Y tro hwn ganed merch fach i Anwen eu merch a Llion, sy'n byw yn ardal Castell Newydd Emlyn. Dymuniadau gorau i'r teulu bach. Llawenydd hefyd yw llongyfarch Mrs Mona Owen ar ddod yn Nain i ŵyr bach newydd ym Meifod. Ganed baban bach i'w mab Aled a Lyndsey yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r teulu.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Tom a Mair Ellis wedi i Mair golli modryb iddi, o ardal Glyn Ceiriog, yn ystod Mehefin.

**COFION**
Rydym yn gweld colli nifer o aelodau sy'n methu mynychu'r oedfaon, bellach. Cofion cynnes iawn atynt a diolch iddynt am eu diddordeb a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

# O’R LLAN

## *gan y Canon Idris Thomas*


**CLOCH A GANODD AC A DDIFLANNODD**

Prin iawn yn y Beibl yw’r cyfeiriadau at gloch neu glychau. Er hynny fe sonnir yn Exodus wrth ymdrin â gwisgoedd offeiriadol y “bydd clychau aur… o amgylch godre’r fantell” a dywedir yn Llyfr Sechareia y “bydd Sancteiddrwydd i’r Arglwydd wedi ei ysgrifennu ar glychau’r meirch”. Nid oes raid i ni heddiw symud o’r tŷ i glywed sŵn clychau gan fod cloch y drws a chloch y ffôn yn synau cyffredin i’n clyw. Cofiaf rywun yn dweud unwaith ei fod yn ddiolchgar mai telynau fydd yn y nefoedd ac nid clychau ac atebais fod modd cael digon ar y rheini hefyd!

Pan oeddwn yng Ngholeg Llambed ac yn mynychu’r gwasanaeth Cymun am y tro cyntaf yng Nghapel y Coleg, peth dieithr i’m clust oedd clywed cloch fechan yn cael ei chanu pan oedd yr offeiriad yn dyrchafu’r bara a’r gwin yn y Weddi Gysegriad. Hon oedd y Gloch Allor. Pan fûm ar ymweliad â Gwlad yr Iesu, darlun cyfarwydd oedd gweld clychau am wddf defaid a geifr. Sŵn braidd yn undonog oedd i’r clychau hynny ond roeddent i’w clywed o bell ac yn hanfodol ar gyfer y bugail gyda’i braidd crwydrol. Byddai clywed y gloch yn rhoi cysur iddo, fod yr anifail yn fyw. Yn yr emyn “Dyma babell y cyfarfod” dywed Ann Griffiths: “Wrth ei odre clychau’n llawn o sŵn maddeuant i droseddwyr”.

Cloch y Santes Fair yn Ninorwig (yr Eglwys fach fel y’i gelwid) lle y’m magwyd yw’r gloch a gofiaf gyntaf erioed. Ar Suliau braf byddai’r clochydd (fy nhad oedd un o’r rhai a wnâi y gwaith) yn sefyll yng nghanol y porth neu’r fynedfa yn tynnu’r rhaff. Roedd yr olygfa o’i flaen yn un gyfareddol gyda’r defaid a’r ŵyn yn pori’n hamddenol ar y tir llwm ac yn y pellter domennydd mawr Chwarel Dinorwig a mynydd yr Elidir Fach. Ar nosweithiau clir a thawel yn yr haf lawer tro, clywn ar y ffordd i’r Eglwys glychau Eglwys Sant Padarn yn canu islaw yn Llanberis – rhyw ddeuawd clochyddol. Un o glochyddion yr Eglwys am flynyddoedd oedd Harry Williams, Llidiart y Clo, a ddisgrifiwyd fel hyn gan y Parchedig Brifardd Emrys Edwards –

Harri William, rhaid ffarwelio – â’i lwch,
Y clochydd diflino;
Di-baid ei ffyddlondeb o,
Rhinwedd gwerin ddiguro.



Ond beth am y gloch a ganodd ac a ddiflannodd? Yn 1958 aethpwyd ati i atgyweirio a harddu’r Santes Fair yn Ninorwig a derbyniwyd amryw o roddion at ddefnydd yr addoldy, gan aelodau er cof am anwyliaid. Ar nos Fercher y 3ydd o Ragfyr cyflwynwyd y rhoddion mewn gwasanaeth arbennig ac yn bresennol roedd yr Hybarch Gwynfryn Richards, Archddiacon Bangor ar y pryd. Ar waelod y rhestr rhoddion, ceir hyn: “…derbyniwyd hefyd gloch o Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen. Am drwsio a chludo’r gloch, £2-10s”. Wel pam yn y byd rhoi cloch o eglwys gyfagos yn nhŵr yr eglwys yn Ninorwig a chloch eisoes yno?

Mae’r ateb i’w gael yng nghofnodion un o gyfarfodydd yr Eglwys, lle dywedir bod y Ficer wedi sôn am apêl am gloch, a ddaethai o blwyf Livingstone yn Zambia. Awgrymodd roi cloch y Santes Fair i’r plwyf hwn. Yn wir, roedd eisoes wedi ysgrifennu at ficer Livingstone ac wedi cael ateb, yn dweud y byddent yn falch iawn o dderbyn y gloch. Ar gynnig W. Rees Foulkes, ac amryw yn cefnogi, pasiwyd mai pleser fyddai rhoi’r gloch i’r plwyf yn Zambia lle roedd mawr angen un. Ac fe aeth y gloch i Zambia ar long o Lerpwl.

Roeddwn wedi sylwi o edrych ar gyfrifon Plwyf Llandinorwig yn y cyfnod hwn fod swm o arian bob blwyddyn yn mynd tuag at “U.S.P.G.(sef cymdeithas genhadol) - St Augustine, Livingstone, Zambia”. Roedd y darnau yn dechrau dod i’w lle. Cysylltais â’r Gymdeithas Genhadol a daeth gair yn ôl oddi wrth Mrs Jenny Humphreys a oedd yn ymwneud â Chenhadaeth Byd o’i swyddfa yn Wells, Gwlad yr Haf. Soniodd yn gyntaf fod gan Esgobaeth Caerfaddon a Wells yr hyn a elwir yn “gysylltiad partneriaeth” â phump o Esgobaethau Anglicanaidd yn Zambia. A chyda cymorth ffrindiau yn yr Eglwys yn Zambia



Eglwys Y Santes Fair, Dinorwig

roedd wedi llwyddo i gael gwybodaeth am y gloch o Ddinorwig.

Fodd bynnag, dweud wnaeth Jenny fod ganddi newyddion da a newyddion drwg i mi. Mewn ysgrif ar hanes plwyf Livingstone, gan y diweddar Barchedig Denys Whitehead, cafodd yr wybodaeth a ganlyn: “Gerllaw Eglwys St Augustine yr oedd carchar ac yn 1964 codwyd clochdy i’r addoldy gan y carcharorion. Cost y cyfan oedd £7/17/8. Roedd y gloch a osodwyd yn y clochdy wedi ei rhoi gan eglwys yng Nghymru. Cysegrwyd y clochdy gan yr Archesgob Oliver ar y 26ain o Orffennaf 1964 ac roedd yn ddydd o ddathlu mawr”. Fe gysylltodd ag Archddiacon presennol yr ardal sef Emmanuel Chikoya, un a fu yn offeiriad ar St Augustine a chanddo y daeth y newydd trist. Yn 1996 cafodd y gloch a ddaeth o Ddinorwig ei dwyn ac un rheswm am hyn, meddai, oedd fod tŷ’r gofalwr oedd i’w godi ger yr eglwys heb ei gwblhau ac felly roedd diogelwch ar y safle yn wan. Roedd yn ddrwg iawn gan yr Archddiacon fod y newyddion yn hynod siomedig ond o leiaf roedd cynulleidfa St Augustine wedi cael defnydd o gloch Dinorwig am 30 mlynedd. Mae’r clochdy o hyd yno. Mae gan rai plwyfi yn Esgobaeth Caerfaddon a Wells gysylltiad agos â phlwyf St Augustine ac mae sawl ymweliad wedi bod rhwng y plwyfi er gwaetha’r pellter a bydd hyn yn parhau. Roeddwn wedi ystyried ymuno â thaith i Zambia gyda hwy ond o glywed am ddiflaniad y gloch diflannodd yr awydd hwnnw hefyd.

Un newydd cadarnhaol yw fod plwyf St Augustine wrthi’n sefydlu



ysgol mewn eiddo a roddwyd i'r plwyf a hynny yn bennaf i addysgu plant bregus o fewn y gymuned dlawd hon. Yn ystod y misoedd diwethaf, dan adain Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, bûm yn arwain grŵp egnïol a chreadigol o wahanol asiantaethau o amgylch cymuned Dinorwig fel rhan o waith ymchwil i safle treftadaeth llechi'r byd. Rhydd hanes cloch Eglwys Dinorwig ogwydd rhyngwladol i'r cyfan a chyfle hwyrach i sefydlu perthynas fyw â phlwyf Livingstone yn Zambia bell.

Rhyfeddol yn wir fod cloch y Santes Fair, Dinorwig, a alwodd y gymuned chwarelyddol ynghyd am gynifer o flynyddoedd wedi galw hefyd y brodorion yn Livingstone bell at ei gilydd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Wrth glywed clychau un eglwys yn canu ar fore Sul, meddai'r Parchedig John Edward Williams:

O, torred eich deng munud
Yn rymus ar ein clyw:
Tystion yw eich tafodau
Chwithau i'r Arglwydd Dduw.

Gorffennaf gyda geiriau'r Canon R. Glyndwr Williams yn 1998. Ef oedd yn gofalu am Eglwys y Santes Fair yn Ninorwig pan aeth y gloch i Zambia. Mor wir a dirdynnol yw ei eiriau heddiw. "Mae'r gloch yn galw o hyd ond llai a llai yn ei hateb. Gan hynny gadawer i'r tyrau ddistewi, un yma ac un acw, nes na ddaw'r un dinc o'r gorwel i'n haflonyddu. Rhyw ddiwrnod fe glywn y distawrwydd, a gofyn beth sy'n bod".

# Y Gynhadledd

## *gan y Diacon Jon Miller*

Cynhaliwyd y Gynhadledd Fethodistaidd eleni yn Birmingham, rhwng 27 Mehefin a 4 Gorffennaf.

Mi es i i'r Gynhadledd yn syth o fy ngwyliau yn Sir Benfro, gan gyrraedd ar gyfer y Sesiwn Agoriadol ar y dydd Sadwrn. I ddechrau cawsom glywed areithiau'r Llywydd a'r Is-lywydd newydd. Soniodd y Llywydd, y Parchedig Ddr Barbara Glasson, am y thema a ddewiswyd ganddi hi a'r Is-lywydd ar gyfer y flwyddyn sef "Felly beth yw'r stori?" Maent am ein hannog fel Methodistiaid i rannu ein straeon. Defnyddiodd yr Is-lywydd, yr Athro Clive Marsh, y penawdau Pleser, Duwioldeb a Gwleidyddiaeth – pethau y dylid eu cadw mewn cydbwysedd heb fynd yn sownd gyda'r un ohonynt.

Ar y Sul, yn dilyn Oedfa'r Gynhadledd, mi es i gapel Shirley ar gyfer y gwasanaeth ordeinio diaconiaid. Mae bob amser yn bleser mynd i wasanaeth ordeinio ac roedd yn hyfryd croesawu pedwar diacon newydd i Urdd y Diaconiaid Methodistaidd. Y pregethwr oedd y Parchedig Inderjit Bhogal a chafwyd gair amserol am y gobaith a'r gostyngeiddrwydd a ddylai nodweddu ein gwaith.




Roedd trafodaethau'r Gynhadledd eleni yn cynnwys edrych ar adroddiad o'r enw "GOD IN LOVE UNITES US." Neilltuwyd amser i'r adroddiad hwn sawl tro yn ystod yr wythnos ac roedd yn cwmpasu nifer o faterion gan gynnwys ysgariad, cyd-fyw a phriodas unrhyw. Pleidleisiodd y Gynhadledd o 247 i 48 o blaid cytuno mewn egwyddor i ganiatáu priodas unrhyw, yn amodol ar ymgynghoriad â'r Taleithiau a fydd yn para am un flwyddyn a phleidlais yn 2020 i gadarnhau hyn.

Roedd y Gynhadledd yn ddiddorol a maith, ac yn torri tir newydd hefyd. Llawenydd oedd bod yn rhan ohoni a gweld pa mor gariadus a gofalus o'n gilydd y gallwn fod fel aelodau o'r Eglwys Fethodistaidd hyd yn oed pan fydd anghytundeb sylfaenol ynghylch y materion dan sylw. Cafwyd cyfle yn ystod yr wythnos i glywed llais pob rhan o'r Cyfundeb gan fod cyfle i bawb ddweud ei ddweud. Os cewch gyfle i fynd fel cynrychiolydd i'r Gynhadledd, mae'n sicr yn werth chweil. Mae hefyd yn bosib gwylio'r Gynhadledd ar y We ac ymuno yn y drafodaeth trwy Twitter.



Y Parchg Barbara Glasson

## Merched Methodistaidd

Pleser oedd bod yn bresennol yng nghyfarfod comisiynu Hilary Evans yn llywydd newydd Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain (MWiB) ar gyfer 2019-2021, ar nos Wener 28 Mehefin 2019 yn y Metropole Hilton, Birmingham. Cyfarfod ymylol MWiB yn y Gynhadledd Fethodistaidd oedd hwn. Mae Hilary yn dod o Southampton ac yn aelod gweithgar o'i heglwys a'i Chylchdaith. Seiliwyd y cyfarfod ar themâu "Dwylo Agored a Gofod i Dyfu" (*Open Hands and Space to Grow*), sy'n deillio o Salm 145: 16. Cymerwyd rhan gan aelodau o bwyllgor gwaith MWiB, ffrindiau a theulu Hilary a chafwyd anerchiad grymus gan y Parchg. Gareth Hill, gweinidog Hilary. Braf oedd gweld yr ystafell yn orlawn gydag o leiaf 150 yn bresennol. Fel adran Synod Cymru mudiad Merched Methodistaidd, deisyfwn fendith Duw ar lywyddiaeth Hilary.
*Margaret Morgan*

# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Horeb, Croesoswallt

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i'r Parchedig Gwilym O. Jones, a gafodd godwm a thorri ei glun. Mae bellach wedi dod adref o'r ysbyty ac yn cryfhau. Mae wedi ail-gydio yn yr awenau a chynnal gwasanaethau. Gwelsom ei golli yn fawr iawn o'n plith, a'n dymuniad ni yw iddo gryfhau a gwella yn llwyr.

Da yw clywed hefyd fod Mrs Lyn Ellis yn gwella ar ôl cael pen-glin newydd. Pob dymuniad da.

**GWASANAETHAU**
Ar ôl treulio'r misoedd oeraf yn y festri, daethom yn ôl i addoli yn y capel, a chawsom y pleser o groesawu i wasanaethu yn Horeb a Seion Mr Tom Ellis, Mr Eirwyn Pierce Jones, Mr Dafydd Barker Jones, Mr Glyn Williams, Mrs Beryl Vaughan, Mr John Ellis, Mrs Elizabeth Jones a'r Parchedigion Edwin Hughes a Dilys Jones. Buom wrthi hefyd yn ymarfer at y Gymanfa dan arweiniad Mrs Lynda Thomas

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cyfanswm y casgliad eleni oedd £294.60 – casgliad teilwng iawn o gofio'r gofyn sydd gan wahanol elusennau am ein harian. Diolch i Nesta, John a Dafydd am eu hymdrechion.

**CYDYMDEIMLO**
Cafodd teulu'r Henlle golled arall ychydig wythnosau ar ôl colli modryb, sef marwolaeth cefnder, y diweddar Glyn Hughes, Caelloi y Foel. Cydymdeimlwn yn gywir â'r teulu.

**GOHEBYDD** · EURWYN JONES

## Pisgah, Rhiwlas

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Parchedig a Mrs Gwynfor Williams, Eurgain a'r plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Eurig, Bethan a gweddill teulu Fferm Glanrhyd, Pentir. Bu farw eu tad, Ieuan Wyn Owen, yn dawel ar Fehefin 8fed eleni.

Yn yr un modd cydymdeimlwn ag Einir a Hefin Williams. Bu farw ewythr i Einir, Iorwerth Williams, Llanrug yn frawychus o sydyn yn ei gartref ar Fehefin 6ed.

Cydymdeimlwn hefyd â Iona Jones. Bu farw perthynas iddi, Eurwen Williams, yng Nghartref Cerrig yr Afon yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Mr John Huw Evans yn dilyn triniaeth i'w lygaid yn ddiweddar. Rydym yn falch o ddeall ei fod yn gwella'n dda.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
Llongyfarchiadau i Osian Wyn Rowlands a'i ffrind Ellis Williams ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r fro. Y dasg oedd llunio gwefan i flwyddyn 7, 8 a 9, a'u thema oedd Dyffryn Ogwen, Ein Dyffryn Ni. Gellir gweld y wefan ar safle we'r Urdd.

**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Thomas, Gareth ac Iona yn dilyn dwy brofedigaeth. Bu farw perthynas iddynt yng Nghricieth a chwaer yng nghyfraith a modryb yn Llannerch-y-medd.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i'r Parchedig a Mrs Gwynfor Williams a'r teulu yn dilyn marwolaeth eu mab yng nghyfraith.

**YNYSOEDD Y PHILIPINAU**
Dymunwn yn dda i Mared Foulkes sydd wedi mynd i Ynysoedd y Philipinau am ychydig wythnosau i wirfoddoli mewn ysbyty yno. Mae Mared newydd orffen ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd yn gwneud cwrs fferylliaeth. Mwynha dy gyfnod yno, Mared, a phob dymuniad da gyda gweddill y cwrs.

**GOHEBYDD** . CARYS THOMAS

## Carmel, Cnwch Coch

**DATHLU'R SULGWYN**
Daeth criw o bobl o ardal Ceredigion at ei gilydd i ddathlu'r Pentecost mewn Cymanfa Ganu yng nghapel Cnwch Coch eleni. Roedd yr achlysur dan arweiniad Miss Menna Evans gyda chyfeiliant gan Dr Angharad Shaw ar y piano. Cafodd pob capel yn yr ardal gyfle i ddewis emynau, a chawsom amrywiaeth eang o eiriau a thonau. Fe wnaeth pawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn – yn canu'n dda ac yn cymdeithasu a chyd-fwyta wedyn.

**GOHEBYDD** . BET HOLMES

## Pendref, Dinbych

**GWASANAETHAU**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Mai a Mehefin dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands, Mrs Elizabeth Jones a'r Hybarch Bernard Thomas. Hoffem hefyd ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y tri chyfarfod gweddi a gynhaliwyd pan nad oedd pregethwr ar gael. Manteisiwyd ar y cyfle mewn dau o'r cyfarfodydd i gael ymarfer ar y Detholiad dan arweiniad Vera Savage, ar gyfer y Gymanfa Gydenwadol.

**ADFER YR ADEILAD**
Dydd Sul Mai 5ed cynhaliwyd yr oedfa gyntaf yn y capel ers bron i chwe blynedd yn dilyn y gwaith adeiladu ar y nenfwd a'r to ac ati. Cafwyd Oedfa Gymun fendithiol iawn dan ofal ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands.

**CYD-ADDOLI**
Ar ddydd Sul y 12fed o Fai, cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol tref Dinbych yn y Capel Mawr. Dydd Sul Mai 19eg ymunodd nifer o'n haelodau yn oedfa arbennig Ardal Dyffryn Clwyd ym Methel Prestatyn, dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd.

**FFAIR WANWYN**
Bore dydd Sadwrn Mai 4ydd cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, sydd drws nesaf i'r capel. Daeth nifer dda o drigolion Dinbych a'r cylch i gefnogi achlysur llwyddiannus dros ben a gwnaed elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch am gyfraniad pawb tuag at y ffair.

**GOHEBYDD** . MARY JONES

## Bethel, Rhiwbeina

**GWASANAETHAU**
Yn ystod Mehefin a Gorffennaf, croesawyd y Parchedig Robert Griffiths, Mr Gwyndaf Roberts a Mr Marc Jon Williams i arwain y gwasanaethau. Ar 9 Mehefin roedd ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan yn arwain ein gwasanaeth ac yn gweinyddu'r Cymun.

**BEDYDDIO**
Ar y Sul olaf ym Mehefin fe fedyddiwyd Jac Tomos Francis gan ein gweinidog. Mae Jac yn fab i Trystan a Siân Francis ac yn frawd bach i Mimi.

**Y GYMDEITHAS**
Dydd Mawrth 4 Mehefin, daeth Mrs Ann Mears atom a'n swyno gyda'i sgiliau trefnu blodau. Nid oedd y tywydd yn braf ond drwy harddwch y blodau ar y thema 'Garddwest' hawdd oedd dychmygu bod yr haul yn gwenu!

Bu nifer o aelodau'r Gymdeithas yn mwynhau pryd o fwyd blasus yng *Nghaffi Fach* Rhiwbeina. Fe fydd gweithgareddau'r Gymdeithas yn ail ddechrau yn yr hydref ac mae croeso i bawb.

**TREFNIADAU AWST**
Ni chynhelir gwasanaethau ym Methel yn ystod mis Awst ond mae cyfle i addoli yn eglwysi Cymraeg eraill y ddinas. Fe fyddwn yn cyfarfod eto ym Methel dydd Sul Medi 1 am 10:15yb. Y Parchedig Ganon Aled Edwards fydd yn arwain y gwasanaeth.

**GOHEBYDD** . GWILYM E ROBERTS

## *Salem, Rhyd y Foel*

**PERERINDODAU**
Ddydd Sul 26ain o Fai fe aeth aelodau Salem a Horeb ar bererindod i Ddyffryn Conwy. Cinio Sul yng Ngwesty Abaty Maenan, yna ymlaen i Benmachno i ymweld â Thŷ Mawr y Wybrnant. Yno i'n croesawu roedd y Dr Nathan Munday, Uwch-Swyddog Profiad Ymwelwyr. Mae Nathan wedi astudio hanes Cymru ac yn ddiweddar fe gwblhaodd ddoethuriaeth yn edrych ar y ffordd y mae crefydd wedi ysbrydoli barddoniaeth ac iaith. Wedi inni gael braslun o hanes yr Esgob William Morgan a'i waith a chlywed tipyn am yr adeilad hanesyddol, gwelsom gopi o Feibl William Morgan a'r arddangosfa o Feiblau mewn gwahanol ieithoedd. Profiad arbennig iawn.

Ddydd Sul Mehefin 16eg fe aethom draw i Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog Fawr a chawsom groeso cynnes gan yr aelodau. Cawsom gyfle i ymuno yn y gwasanaeth Cymraeg a derbyn y Cymun gan y Parchg Peter James. Yna cafwyd lluniaeth a chlywsom hanes yr Eglwys hynafol gan aelod gwybodus iawn sef James. Yn ogystal, cawsom ein tywys gan ferch o'r pentref at Ffynnon Beuno. Ymlaen wedyn i westy'r Pant Du, Penygroes am ginio blasus a phawb wedi mwynhau yn fawr. Diolch i Esther Roberts am drefniadau trylwyr fel arfer.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at ein gweinidog y Parchg Tudur Rowlands ac at rai o'n cyfeillion nad ydynt yn mwynhau llawn iechyd ar hyn o bryd.

**CYDYMDEIMLO**
Daeth profedigaeth i ran Miss Debbie Roberts ddiwedd mis Ebrill pan fu farw ei mam, Mrs Glenys Edna Roberts o Glan Erin, Cricieth. Cydymdeimlwn â Debbie a'r teulu yn eu colled.

**GOHEBYDD** . SIÂN PRICE

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Ffion Wyn, merch Carys a'r diweddar Paul ar dderbyn gradd B.A. dosbarth cyntaf mewn Dylunio Ffasiwn o Brifysgol De Cymru, Caerdydd. Pob lwc eto yn y dyfodol.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

## *Ebeneser, Caernarfon*

**CYDYMDEIMLO**
Rydym fel Eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â'r Parchedig a Mrs Gwynfor Williams a'r teulu yn y brofedigaeth lem a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar. Duw fyddo'n gysur iddynt oll yn eu hiraeth a'u galar.

**GOHEBYDD** . RONNIE HUGHES

## *St Paul, Aberystwyth*

**CYMANFA GANU**
Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Ardal Ceredigion eleni yng Nghnwch Coch gydag aelodau o bob capel yn yr Ardal yn bresennol. Cawsom gyfarfod hyfryd iawn. Mwynhawyd yr addoliad ac yna y cyfle i gael sgwrs ag aelodau eraill o'r Ardal.

**COLLED**
Wrth i'r adroddiad hwn gael ei baratoi daeth y newydd trist iawn am farwolaeth Trefor Lloyd Jones ar nos Sadwrn 29 Mehefin. Rhoddodd Trefor wasanaeth hir i gapel Sant Paul. Roedd ganddo lais hyfryd dros ben ac am flynyddoedd lawer ef a arweiniodd y canu yn yr hen Sant Paul a'r adeilad presennol. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei wraig Emily a'i blant Delyth ac Aled a'r teulu i gyd.

**GWASANAETH UNEDIG**
Erbyn hyn mae'r ddwy gynulleidfa yng Nghanolfan Sant Paul yn cyd-addoli pan fydd pumed Sul yn y mis. Ar ddiwedd Mehefin, felly, cynhaliwyd gwasanaeth unedig dan arweiniad y Parchedig Marty Presdee. Rydym wedi arfer â defnyddio dwy iaith ond y tro hwn roedd yr addoliad mewn tair oherwydd yn ystod y gwasanaeth bu côr o fyfyrwyr o Dde Corea yn canu emynau o Gymru a Chorea.

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## *Ebeneser, Treuddyn*

**RALI FLYNYDDOL**
Cynhaliwyd ein Rali flynyddol ar nos Sul, Mehefin 9fed dan arweiniad Wendy Swan. Ymunodd nifer o bobl y pentref â ni yn y gwasanaeth bendithiol hwn.

**DEWCH I GAEL TE**
Byddwn yn cynnal ein Te Prynhawn yn Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Medi 7fed am 3 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes.

**CYFARFOD PREGETHU**
Edrychwn ymlaen at ein Cyfarfod Pregethu ar nos Sul, Medi 8fed am 6 yr hwyr, pan fydd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Ddr. Siôn Aled Owen, Wrecsam.

**GOHEBYDD** . GLENYS DAVIES

## *Llawryglyn*

**CYD-ADDOLI**
Am y tro cyntaf ers pan ymunodd capeli Cylchdaith Llanidloes â'r gylchdaith Saesneg dros ddeugain mlynedd yn ôl, cynhaliwyd gwasanaeth Cymun dwyieithog ar Sul y Pasg eleni, yng Nghapel Wesle Llawryglyn ym Mhowys. Pleser oedd croesawu Cadeirydd Synod Cymru, y Parchg Ddr Jennie Hurd i gynnal y gwasanaeth ar y cyd gyda'n gweinidog, y Parchg Bob Thomas. Croesawyd hefyd aelodau o gapeli Presbyteraidd yr ardal. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd darlleniadau yn Gymraeg gan Beti Griffiths, Capel y Graig, Penffordddlas ac Elen Rhys, Caerdydd, a'r darlleniad Saesneg gan George. Wendy Wigley oedd yn cyfeilio ar yr organ gyda Charlie Clark yn cynorthwyo a seinio'r fuddugoliaeth ar y trwmped. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn a chyfle i sgwrsio. Roedd yn ddiwrnod hyfryd, tesog - braf oedd gadael drws y capel ar agor yn ystod y gwasanaeth.

**GOHEBYDD** . MARGARET JONES



## *Bethel, Prestatyn*

**SUL YR ARDAL**
Y Parchedig Jennie Hurd oedd ein Pregethwr ar gyfer Sul yr Ardal, pan fu cyfle i aelodau capeli'r Ardal gyd-addoli. Yn ystod y gwasanaeth, cyflwynwyd tystysgrifau a medalau i'r plant am gasglu at y Genhadaeth.

**PREGETHWR IFANC**
Cawsom y pleser o groesawu Owain, mab y Parchedig a Mrs Marc a Margaret Morgan atom yn ddiweddar a hyfryd oedd cael cennad mor ifanc yn ein pulpud. Rhoddodd anerchiad arbennig i'r plant ac roedd canmol mawr am ei bregeth. Dymunwn yn dda iddo ef a Lucy wrth iddynt baratoi ar gyfer eu priodas ym mis Medi. Pob bendith.

**CYFARFOD PREGETHU**
Gwahoddwyd y Parchg Robert Parry i'n harwain yn ein Cyfarfod Pregethu eleni a chafwyd bendith fawr unwaith eto yn ei neges.

**Y GYMANFA GANU GYDENWADOL**
Hyfryd oedd cael cwmni aelodau capeli eraill yr ardal ar gyfer y Gymanfa ym Methel eleni. Plant Bethel oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol yn y bore, ar y thema 'Teulu': eu teuluoedd eu hunain, Teulu'r Capel a Theulu Duw. Yr arweinydd oedd Mrs Mari Lloyd Pritchard, arweinydd Côr Ieuenctid Môn, ac fe fwynhaodd y plant ganu emynau'r Detholiad dan ei harweiniad hwyliog a difyr. Daeth cynulleidfa ardderchog i Gymanfa'r pnawn ynghyd â Chôr Encor, côr arall y mae Mrs Pritchard yn ei arwain. Llawer iawn o ddiolch i aelodau Bethel am eu haelioni yn eu rhoddion o fwyd amser cinio rhwng y ddwy Gymanfa a hefyd te i'r côr, ac i chwiorydd Rehoboth, ein chwaer Eglwys ym Mhrestatyn am baratoi cinio i'r plant.

**CROESAWU**
Pleser oedd croesawu'r Parchedig Brian Huw Jones wrth iddo arwain ei oedfa gyntaf ym Methel cyn iddo ddechrau ei



swydd fel ein Gweinidog newydd ym mis Medi.

**FFARWELIO**
Yn dilyn oedfa olaf y Diacon Jon Miller, mwynhawyd cinio blasus pan gawsom gyfle i sgwrsio a diolch i Jon am ei waith dros y pedair blynedd diwethaf. Dymunwn bob hapusrwydd i Jon a'r teulu yn eu cartref a'u gyrfa newydd yn Sir Gaerfyrddin.

**PANED A SGWRS**
Croeso cynnes i unrhyw un alw i mewn am baned ar fore Dydd Mercher rhwng 10.00 a 11.30.

**Y BOCS BWYD**
Diolch o galon i bawb sy'n dod â bwyd yn rheolaidd i'w roi yn y bocs bwyd yn y porth, ar gyfer Banc Bwyd Prestatyn.

**GWYLIAU HAF**
Dymunwn wyliau haf hapus a llawn hwyl i'n teuluoedd ifanc ac i'n holl aelodau.

**GOHEBYDD** . GWENDA HUMPHRIES

## *Shiloh, Tregarth*

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Catherine Barnett, priod Philip, sydd wedi cael llawdriniaeth. Rydym yn meddwl am nifer o'n haelodau a'n cyfeillion nad ydynt yn eu llawn iechyd, ac yn gofidio nad yw ein horganydd, Wynn, eto wedi gallu cael y llawdriniaeth y mae'n disgwyl amdani.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Christine Morris-Jones y bu farw ei thad yng nghyfraith, William Emyr Morris-Jones. Meddyliwn amdanoch fel teulu. Cydymdeimlwn hefyd â Delyth ac Iwan Bowen Jones a'r teulu yn dilyn marwolaeth mam Delyth.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Ela Non Ellis Jones, wyres Valerie, a ddaeth yn drydydd ar ganu Cerdd Dant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau cynnes iawn hefyd i Tomos Morris Jones ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Bangor.

**PEN-BLWYDD HAPUS**
Dymuniadau gorau i Ffion ar ddathlu pen-blwydd arbennig gyda thaith i Ecuador yn ddiweddar. *(Diolch! – Gol.)*

**BEDYDD**
Bedyddiwyd Tomos Elis, mab Tomos Jac Evans a Cerian Emlyn Jones, yn Shiloh gan y Parchg Richard Gillion. Boed bendith arnoch fel teulu.

**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES








cartŵn



# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos

Bûm ar fy ngwyliau yn ddiweddar, a da iawn ydi bod yn ôl yng Nghymru. Roedd bod yn Sardinia ym mis Gorffennaf yn debyg i gael eich rhoi mewn popty poeth am ddeg diwrnod. Dwi'n falch o fod adre.

Un peth gaiff rhywun ei wneud ar wyliau yw crwydro eglwysi ac mae gen i deimladau cymysg am hyn. Maent yn adeiladau ysblennydd, efo gwaith celf anhygoel ynddynt, a chawn gip ar fywyd dyddiol y bobl leol ddaw yn gyson i'w lle o addoliad. Ond fedra i ddim peidio teimlo yn anghyfforddus. Person o'r tu allan ydw i yn edrych ar eu defodau sanctaidd hwy. Dydyn nhw ddim yn gwgu mod i yno, ond dydw i ddim yn teimlo fel cyd-bererin, dim ond fel dieithryn.

Mae deuoliaeth am y crandrwydd hefyd. Fel Anghydffurfiwr, caf sioc fod y fath gyfoeth mewn man o addoliad. Yna, dwi'n ail ystyried, ac yn meddwl – o gysegru eich cyfoeth ac amser i adeiladu rhywbeth ysblennydd, well bod hwnnw wedi ei wneud er clod i Dduw nac er mwyn dim arall. Dim ond nad ydi Duw angen y crandrwydd hwn. Felly ydw i, yn pendilio rhwng dau feddwl.



Ond dwi'n dal i gael fy nenu i'r adeiladau hyn. Mewn dinas brysur, maent yn noddfa ddeublyg. Maent yn noddfa rhag y gwres llethol tu allan, ond maent yn fannau o dawelwch rhag rhuthr bywyd. Yma, rydych chi'n teimlo fod rhywbeth amgenach yn cyfri. Wrth ddod drwy y dorau mawr, rydych yn ymwybodol eich bod mewn lle ysbrydol. Mae'n dda fod pobl yn dal i gael eu denu i mewn i eglwysi.

Dwy eglwys wnaeth argraff arnaf yn Sardinia. Un oedd Eglwys Gadeiriol Oristano, y Duomo, efo'i tho siâp nionyn yn mynd yn ôl i'r G14. Honglad o adeilad, a'r haul yn dod i lawr o'r to uchel, ac arogl lilis yn treiddio'r lle. Dychwelais sawl tro i hon, i edrych ar y cerflun pren o Fair Forwyn, yr *Annunziata*, wnaed yn 1350.

Ond roedd lle arall yn rhagori ar hyn. Yn y brifddinas, Cágliari, roedd crypt, yn Eglwys Santa Restituta (toes 'na ramant yn yr enwau?) Ogof danddaearol oedd hon a arferai fod yn lle ar gyfer defodau paganaidd yn ymwneud â dŵr. Ond yna fe'i cysegrwyd i Restituta, a gafodd ei herlid a'i lladd. Mor gynnar â'r bumed ganrif, roedd ffoaduriaid o'r Affrig yn cael noddfa yma. Ac yn syth, roedd hyn yn taro nodyn cyfoes. Daeth yn lle pwysig i'r Eglwys Roegaidd Uniongred, yna roedd yn garchar, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd pobl yn dod yma i gael lloches rhag y bomiau. Yn 1943, lladdwyd pobl gan fom o'r awyr wrth iddynt geisio dod i mewn i'r crypt. Yma, mae hen gerflun o Ioan Fedyddiwr ar y graig, mae tair allor o 1614 yma, ac mae ysgrifen Ladin ar y mur, Hic sunt reliquie Santa Arrestituta. Does wybod pa mor hen ydi'r lle.

Ac yn sydyn, dyma fo'n fy nharo. Dim ots gan Dduw, dim ots ganddo lle rydan ni'n addoli. Mewn capel syml yng nghefn gwlad Cymru, mewn eglwys gadeiriol ysblennydd, mewn ogof danddaearol, waeth befo. Yr un Duw ydi o, a dyna'r unig beth sy'n cyfri. Y peth pwysig ydi canfod y fan, a dychwelyd yno.

## SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

Bethel, Mynydd y Fflint
£100.00
Salem, Pentre Helygain
£40.00

Anfonwyd cyfanswm o £140.00 yn enw Synod Cymru.
Gyda diolch am bob cyfraniad.

Mae *Gweithredu dros Blant* wrthi'n dathlu 150 o flynyddoedd ers dechrau cynorthwyo plant sydd dan anfantais. Dechreuodd y dathliadau ar Orffennaf 9fed 2019, ychydig ddiwrnodau cyn Sul Gweithredu dros Blant, a bydd y dathlu yn parhau am beth amser. Cynhelir gwasanaeth arbennig i ddathlu'r achlysur yng Nghadeirlan St Paul, Llundain ym mis Hydref.

*Rhaghysbysiad*: Byddwn yn lawnsio eto eleni ein hymgyrch casglu anrhegion Nadolig, ym mis Medi. Edrychwch allan am y taflenni.

**Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan**



*Annest, Cartwnydd Y Gwyliedydd, gyda dau Llama*



**Llythyr at y *Gwyliedydd***


Annwyl Olygyddion

Roeddwn yn falch iawn o weld yr erthygl yn y *Gwyliedydd* "Bwydo Boliau Nid Biniau" a da oedd darllen yr hanes am sut y mae'r Eglwys yn Aber ar waith yn y gymuned.

Byddaf yn poeni am wastraffu bwyd fy hun ond mae prynu bwyd i un yn sialens weithiau. Doeddwn i erioed wedi meddwl am gadw tatws yn yr oergell ond maen nhw'n cadw yn well o lawer!

Bûm yng Nghaerdydd dros y Pasg ac ar Sul y Pasg roedd Eglwys Bethel yn cyd-addoli efo Salem Treganna, eglwys arall sydd o dan ofal y Parchg Evan Morgan. Yn ystod y gwasanaeth, ar ôl cyfraniad gwefreiddiol Côr Mizoran, darllenodd Evan lythyr oddi wrth unigolyn digartref – un o blith nifer fawr, gwaetha'r modd, sy'n byw ar y stryd yn y ddinas. Mae Eglwys Salem yn agor eu drysau bob nos Fawrth i gynnig pryd o fwyd a lloches dros nos i'r digartref. Roedd y llythyr yn wych ac roedd deigryn yn fy llygad wrth wrando. Dyma enghraifft arall o'n heglwysi yn ymestyn allan i'r gymuned. Diolch amdanynt.

Gyda phob dymuniad da
Sheila A Thomas



**Daniela Suri ac Owain Morris, ar ddydd eu priodas yn Vilcabamba, Ecuador. Mae Owain yn ŵyr i'r diweddar Barchg. O. Maurice Jones**

# GAIR BACH

## *gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*

**Cyfri'r gost**
Neges ffôn oddi wrth Robin yn holi, 'Oes bosib cael rhyw golofn fach gynnoch chi i'r *Gwyliedydd* tybed?' Ffoniais yn ôl ar unwaith, ac addo anfon erthygl tri chan gair o fewn yr wythnos. Ar ddiwedd y sgwrs y sylweddolais mai gwahoddiad i sgwennu colofn reolaidd bob deufis ydoedd!

Digwyddodd peth tebyg flynyddoedd yn ôl pan gytunais i fod yn rhan o dîm golygyddol papur bro, gan dybio mai un o ddwsin o bobl yn rhannu'r gwaith fyddwn i. Wedyn y sylweddolais mai un o dri oeddwn ac y byddai un o'r ddau arall yn symud o'r ardal ymhen deufis, a'm gadael i ac un arall i wneud y gwaith.



Soniodd Iesu (yn Luc 14) am rywun a fwriadai godi tŵr. Cyn cychwyn, mae'n ystyried yn ofalus a oes ganddo adnoddau digonol ar gyfer y dasg, rhag dechrau'r gwaith a sylweddoli, wedi gosod sylfaen, nad yw'r adnoddau ganddo i'w orffen. Soniodd hefyd am frenin, cyn brwydr, yn ystyried a oedd deng mil o filwyr yn ddigonol i wynebu byddin o ugain mil. O benderfynu na fyddai'n ddigonol, byddai'r brenin yn ceisio telerau heddwch yn hytrach na mentro i frwydr nad oedd obaith ei hennill.

Mae galwad Iesu'n ddifrifol, ac ni all neb ymateb iddi'n ysgafn a difeddwl. Mae'r Gwaredwr yn gofyn cymaint gennym wrth ein gwahodd i gredu ynddo. Ar un wedd, y peth hawsaf yn y byd yw credu yn Iesu: dim ond ymddiried ynddo sydd raid. Ond ar wedd arall, mae'n anodd gan ei fod yn golygu ei roi ef cyn popeth arall. Does ryfedd bod Iesu'n ein hannog i gyfri'r gost er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn deall goblygiadau'r credu hwnnw.

Ac wedi cytuno, does dim troi'n ôl. Felly, os byw ac iach ac os Duw a'i myn, daw gair bach unwaith eto y tro nesaf.

# Un gair bach arall

## *gan Robin a Ffion*

Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r Parchedig John Pritchard am ei gymwynas â ni, ac yn wir yn eithriadol ddiolchgar i'n colofnwyr rheolaidd i gyd. A chofiwch yr hoffem glywed gennych chithau, y darllenwyr, os hoffech ymateb i'r hyn a welwch yn y Gwyliedydd neu fynegi barn am unrhyw beth dan haul! Diolch i Sheila Ann am y llythyr uchod. Pob bendith.

Aeth Meri Jên Jones Ocwyrd Villa
I aros i ymyl Llandegla,
A thra bu hi yno
Fe fynnodd ymuno
Â grŵp bach o'r enw 'Y Wesla'

*R.J.*

# Bwyd i'r meddwl

*gan Bet Holmes*



**Afalau**
Ar ddiwedd yr haf bob blwyddyn, byddaf yn edrych ar y goeden afalau yn yr ardd a gofyn "Beth alla i ei wneud gyda nhw eleni?" Coeden oedd yn yr ardd yn barod oedd hon, ac ar ôl tipyn o ymchwil, penderfynwyd gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Gymru mai *Cox's Pomona* oedd gyda fi. Cafodd y rhain eu tyfu ym 1825 gan Mr Richard Cox o Colnbrook, Slough, ac efallai mai chwaer i'r *Cox's Orange Pippin* yw hi. Afal coginio yw'r *Pomona*, ond un sydd yn fwynach a llai sur na'r *Bramleys* adnabyddus, ac rwyf yn hoff iawn o'i blas.

I raddau, mae eich bwydlen yn dibynnu ar y tywydd – os yw hi'n dwym mae eisiau hufen iâ ar bawb! Wel, dyma *sorbet* afalau hawdd. Bydd arnoch angen:

700g (pwys a hanner) o falau
85g (tair owns) o siwgr caster
3 llwy fwrdd o sudd lemwn
4 llwy fwrdd o *Calvados* (brandi afal)
2 wyn wy

Paratowch yr afalau a'u coginio mewn sosban gyda'r siwgr a'r sudd lemwn am 10 munud tan yn feddal iawn. Gwnewch *purée* ohono fe, a phan fydd yn gwbl oer, cymysgwch y Calvados iddo, a'i ddodi yn y rhewgell. Dewch â fe mas bob rhyw hanner awr, a'i gymysgu eto, ac ar ôl rhyw 3-4 awr, bydd wedi troi'n floc solet. Torrwch ef lan gyda fforc; mae'n bosib bwyta hwn, *granita* falau, fel y mae. Ond i wneud *sorbet* gwir, curwch wynnau'r wyau tan iddyn nhw fod yn stiff, a chymysgwch nhw mewn i'ch iâ. Rhowch ef yn ôl yn y rhewgell, a phan fydd yn edrych fel eira, bydd yn barod!

Ond os yw'r tywydd yn oerach, mae angen rhywbeth arall, ac fel arfer tarten falau fydd hynny. Ond dyma rywbeth gwahanol: *teisen falau*. Ar gyfer hwn, cymerwch:

140g (5 owns) o flawd cyflawn
120g (4 owns) o fenyn neu fargarîn
2 wy
120g (4 owns) o siwgr brown
1 llwy de o bowdr codi
2 afal coginio mawr
1 llwy fwrdd o siwgr brown
1 llwy de o sinamon

Gwnewch gymysgedd sbwng, gan ddefnyddio dŵr i'w lacio (*soft dropping consistency).* Defnyddiwch dun *Swiss roll* a'i ddodi yno yn lefel. Torrwch yr afalau'n sleisys tenau siâp cilgant, a'u dodi yn daclus dros y cymysgedd. Wedyn taenwch y siwgr ychwanegol a'r sinamon drosto.

Pobwch mewn ffwrn cymedrol am 25-30 munud. Mae'n dda yn dwym neu'n oer.

Phlannais i ddim o'r goeden afalau sydd gyda fi. Rhodd rad oedd hi! A dyma ddau yn unig o'r pentwr o bethau y gallaf eu gwneud gyda'r afalau. Pa fath o bethau da allen ni eu gwneud gyda'r rhodd rad o ras y mae Duw yn ei gynnig i ni?

# Bore Coffi Macmillan

*gan Owen Morris*

"**Peidiwch ag anghofio gwneud daioni a rhannu ag eraill; oherwydd ag aberthau fel hyn y rhyngir bodd Duw**". Hebreaid 13:16





Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus dros ben ym Methel, Deganwy ddechrau Mehefin. Daeth nifer helaeth o aelodau a chefnogwyr Grŵp Cristnogol Cymorth Canser Ardal Conwy at ei gilydd i fwynhau cyfeillgarwch mewn awyrgylch hamddenol. Bu sgwrsio ac athronyddu am bopeth dan haul tra yn mwynhau te, coffi a chacennau cartref a oedd wedi eu coginio yn arbennig gan aelodau'r grŵp.

Fe gasglwyd swm anrhydeddus iawn o £218 ar y bore. Roedd yr achlysur hefyd yn dangos mor fendithiol yw hi i ddilynwyr yr Iesu o wahanol enwadau ddod at ei gilydd i gefnogi achos teilwng fel hwn. Mi all cymdeithas o gredinwyr fod yn amhrisiadwy i gynnig ffynhonnell gref o obaith, cefnogaeth ac anogaeth i bobl pan fydd bywyd yn anodd.

Cyflwynwyd yr arian a gasglwyd gan y grŵp i Eleri Brady, Rheolwraig Adran Codi Arian Canser Macmillan, ac fe soniodd Eleri yn ei diolchiadau am y gwahanol bosibiliadau o ddefnyddio'r arian er budd cleifion sydd ar y siwrne canser. Diolchodd Owie Morris, Horeb, i bawb am eu rhoddion hael, gyda gair arbennig o ddiolch i chwiorydd Bethel, Deganwy sef Megan, Marina, Sandra a Margaret am eu parodrwydd bob amser i ymdaflyd eu hunain i waith yr Eglwys. "**Llwydda'r un a wasgar fendithion, a diwellir yr un a ddiwalla eraill**". Diarhebion 11:25




# TUDALEN Y PLANT




# Iacháu Merch Jairus

Lluniau: www. LumoProject.com



Dechreua gyda **P** wrth y saeth, a mynd rownd yn glocwedd, bob yn ail llythyren, i gael hyd i'r geiriau a ddywedodd Iesu wrth Jairus.





(Marc 5:21-43)
Un tro roedd Iesu ar lan llyn Galilea a llawer iawn o bobl yn ceisio ei weld. Daeth dyn o'r enw Jairus, un o arweinwyr y synagog, ymlaen at Iesu. Aeth i lawr ar ei liniau a gofyn i Iesu fynd gydag ef i'w dŷ. "Mae fy merch yn wael, mae hi bron â marw," meddai. "Tyrd! Helpa fi! Plis!"

Aeth Iesu gydag ef ond cyn iddynt allu cyrraedd daeth neges yn dweud fod yr eneth wedi marw. Pan glywodd Iesu hyn, meddai wrth Jairus, "Paid bod ofn; dalia i gredu, a bydd hi'n cael ei hiacháu."

Ar ôl cyrraedd y tŷ, aeth Iesu i mewn gyda Pedr, Iago ac Ioan a rhieni'r ferch fach yn unig. Roedd pobl y tu allan yn crio'n uchel ond dywedodd Iesu wrthyn nhw am fod yn dawel. "Dydi hi ddim wedi marw, dim ond cysgu mae hi," meddai. Ond dyma'r bobl yn dechrau chwerthin am ei ben. Anfonodd Iesu nhw i ffwrdd. Wedi mynd at yr eneth, gafaelodd yn ei llaw a dweud, "Talitha cwmi!" Geiriau Aramaeg yw'r rhain oherwydd Aramaeg roedd Iesu'n ei siarad, ac mae'n golygu "Cod, cariad!" Cododd hi a cherdded a chael bwyd. Roedd pawb wedi syfrdanu.